



ASESIAD ARDRAWIAD
IEITHYDDOL
DATBLYGIAD TAI
FFORDDIADWY CONGL
MEINCIAU, BOTWNNOG

Dylan Bryn Roberts a John
Pritchard

Rhagfyr 2010



	CYNNWYS	TUDALEN
1	Cyflwyniad	3
2	Mesuryddion asesiad ardrawiad iaith	5
3	Cyfanswm Dyfarniad a Sgôr Cronnus	29
4	Mesurau i integreiddio cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda chyfleoedd a swyddogaethau adfywio cymunedol ehangach	31
5	Diweddsglo	33
	Atodiad 1: Holiadur i ddarpar denantiaid	34
	Atodiad 2: Holiadur i Ysgolion Cynradd y dalgylch	39
	Atodiad 3: Holiadur i Ysgolion Uwchradd y dalgylch	50
	Atodiad 4: Holiadur cymunedol	62
	Atodiad 5: Llythyr i ddarpar denantiaid	70
	Atodiad 6: Llythyr i Benaethiaid Ysgolion y dalgylch	71
	Atodiad 7: Llythyr i'r Papur Bro	75
	Atodiad 8: Holiadur Cynghorau Cymuned	76
	Atodiad 9: Llythyr i aelodau'r cyhoedd	77



1. Cyflwyniad

Mae Congl Meinciau yn ddatblygiad tai fforddiadwy a reolir gan Cymdeithas Tai Eryri sy'n cynnwys 12 tŷ 3 ystafell wely sy'n addas i hyd at 5 person yr un – felly'n addas i unigolion, cyplau a theuluoedd sydd un ai wedi neu ar hyn o bryd yn byw neu weithio ym mhlwyfi Botwnnog, Aberdaron neu Tudweiliog am 5 mlynedd. Gallai hyn arwain at o leiaf 24 neu dim mwy na 60 o breswylwyr newydd neu ychwanegol ym mhentref Botwnnog – cynnydd o rhwng 2.6% a 6.5% yn y boblogaeth bresennol o 928 (Cyfrifiad 2001).

Yn y gwaith treialu yng Nghongl Meinciau Botwnnog defnyddiwyd y dulliau canlynol i gyrchu gwybodaeth sef :

- Casglu barn darpar denantiaid (ar y gofrestr) a thenantiaid terfynol – holiadur trwy'r post ac amlen rhagdaledig i'w ddychwelyd. (Atodiad 5)
- Casglu barn aelodau'r cyhoedd – holiadur wedi ei osod mewn mannau cyhoeddus fel siopau, tafarndai, meddygfeydd ac ysgolion. Llythyr i wahodd ymateb mewn dau rifyn misol dilynol o'r papur bro lleol. Dosbarthu holiaduron yn benodol i gynulleidfa darged o Aelodau Etholedig Lleol, Cyngor Cymuned, mudiadau a chymdeithasau a Phartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Pen Llŷn (Atodiad 4).
- Casglu barn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Lleol sef Crud y Werin, Llidiardau, Pont y Gof, Tudweiliog ac ysgol Uwchradd Botwnnog – holiadur trwy e-bost a chyfweiliad wyneb yn wyneb dilynol gyda'r Pennaeth. (Atodiad 2 a 3).
- Ymweld â'r 12 tŷ fforddiadwy a Canolfan Fenter safle Congl Meinciau, Botwnnog.

Gellir eu defnyddio (ai haddasu fel bod angen) fel templedi safonol mewn Ardrawiadau Asesiad Ieithyddol Datblygiadau Tai Fforddiadwy. Yn sgil cynnal peilot addaswyd y templedi er mwyn casglu'r wybodaeth sylfaenol yn unig.

Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Cafwyd ymateb gyda 4 Ysgol Gynradd ac 1 Ysgol Uwchradd Lleol, 3 Cyngor Cymuned (Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog) a Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Pen Llŷn a 4 aelod o'r cyhoedd. Er nad yw ymateb y cyhoedd yn ddigonol i fod yn gynrychioladol mae eu sylwadau wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad ond bod y pwysiad cronus a roddir iddynt yn is gan nad ydynt yn wyddonol ddilys. Wedi dweud hynny, nid oedd cywain ymateb cyhoeddus yn allweddol i'r gwaith peilot – yn arbennig gan nad oedd gwneuthuriad ieithyddol y tenantiaid yn hysbys i'r cyhoedd bryd hynny. Aethpwyd yn benodol am farn 'gynrychioladol' Cynghorau Cymuned a hynny ar ôl i'r wybodaeth am wneuthuriad ieithyddol y tenantiaid ddod i'r amlwg, ac felly roedd yr ymateb a gafwyd yn seiliedig ar y ffaith bod 100% o'r tenantiaid a'u partneriaid yn gallu siarad Cymraeg ac mai Cymraeg yw'r iaith a siaredir amlaf gan 85.7% o'r tenantiaid a'u teuluoedd. Wele tabl 1 isod am fanylion pellach:

Tabl 1: Gwneuthuriad leithyddol tenantiaid Congl Meinciau Botwnnog

Enw'r tenant(iaid)	Byw/gweithio ar hyn o bryd yn...	Siarad Cymraeg		Plant	Iaith y teulu adref	Iaith a siaredir amlaf gan y teulu	Iaith gweithgareddau cymdeithasol		
		Tenant	Partner				Tenant	Partner	Plant
WWWJ+RJ	Abererch, Pwllheli	Ydy	Ydy	1 mab 1 merch	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg
GLIJ	Byw: Garn Fadrun (Botwnnog) Gweithio: Abersoch	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Da'	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Da'	2 fab	Cymraeg	Cymraeg	Ddim yn cymryd rhan	Cymraeg	Cymraeg
RhD	Sarn (Botwnnog)	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Da'	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Da'	3 mab	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg a Saesneg	Heb ateb	Saesneg
HRhM + MLIJ	Botwnnog	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Gweddol'	Cymraeg 'Da iawn' Saesneg 'Gweddol'	Amherthnasol	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Amherthnasol
CAH	Byw: Aberdaron Gweithio: Pwllheli	Ydy	Amherthnasol	3 mab	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Amherthnasol	Cymraeg
EHW+AW	Byw: Nanhoron Gweithio: Botwnnog	Cymraeg	Cymraeg	2 fab 1 merch	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg
RhWJ+GJ	Byw: Y Ffôr Gweithio: Aberdaron	Cymraeg	Cymraeg	1 mab	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Heb ateb
SLJ	Mynytho	Cymraeg	Amherthnasol	2 fab	Cymraeg	Cymraeg	Heb ateb	Amherthnasol	Heb ateb
HWJ+SRC	Byw: Llanbedrog Gweithio: Abersoch	Cymraeg 'Da iawn'	Cymraeg 'Da iawn'	1 merch	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg	Heb ateb
ICH + JC	Byw: Bryn croes (Aberdaron) Gweithio: Dinas (Botwnnog)	Cymraeg a Saesneg 'Da iawn'	Cymraeg a Saesneg 'Da iawn'	1 mab	Y ddwy	Cymraeg	Cymraeg a Dwyieithog	Cymraeg a Saesneg	Heb ateb
A + SM	Botwnnog	Ydy	Ydy	1 merch	Y ddwy	Y ddwy	Heb ateb	Heb ateb	Dwyieithog a Cymraeg
RHJ+M Sh	Llannor	Cymraeg 'Da' Saesneg 'Da iawn'	Cymraeg 'Gweddol' Saesneg 'Da iawn'	1 merch	Y ddwy	Saesneg	Cymraeg a Saesneg	Heb ateb	Cymraeg a Saesneg
-	-	100%	100%	15 mab 5 merch	87.5% Cymraeg	87.5% Cymraeg	6 Cymraeg 2 C+S 1 C+D	6 Cymraeg 1 C+S	4 Cymraeg 1 C+S 1 C+D 1 Saesneg

2. Mesuryddion asesiad ardrawiad iaith

Adran A: Iaith a Symudedd poblogaeth (1-6) (pwysiad uchel – cyfanswm gwerth sgôr o 6.0)

1. Faint o deuluoedd tenantiaid y datblygiad sy'n siarad Cymraeg? Ydy hyn yn gyfesur i ganran siaradwyr Cymraeg y gymuned leol?

Sylwadau:

1. Gwybodaeth gefndirol

Yn 2001 roedd rhwng 73% a 77% o'r boblogaeth ar draws 3 plwyf Botwnnog (76.9%), Aberdaron (75.2%) a Tudweiliog (73.6%) yn siarad Cymraeg, sy'n rhoi canran ar gyfartaledd o 75.2%. Mewn cymhariaeth mae'r canran sy'n gallu siarad a darllen ond ddim yn ysgrifennu Cymraeg yn llai cadarnhaol – Aberdaron 68%, Botwnnog 73.2% a Tudweiliog 70.6%. Pe cai'r ffigyrau siaradwyr Cymraeg eu hadlewyrchu yn y datblygiad tai byddai'n golygu fod rhwng 18 a 45 o'r preswylwyr yn ddwyieithog gyda rhwng 6 a 15 yn ddi-Gymraeg. Dyma'r wybodaeth fyddai'n deillio o gyflawni Cam 1 y fethodoleg (asesiad ardrawiad ieithyddol datblygiadau tai fforddiadwy) pan gyflwynir cais cynllunio ar gyfer y datblygiad tai. Dengys cymhareb gyda canlyniadau Cyfrifiad 1991 y gwelwyd gostyngiad o bron 6% yng nghanran siaradwyr Cymraeg y tri plwyf – gostyngiad o 3.8% (o 79%) yn Aberdaron, gostyngiad o 3.2% (o 80.1%) ym Motwnnog a gostyngiad enfawr o 10.9% (o 84.5%) yn Nhudweiliog. Mae mewnlfid ac allfudo pobl ifanc yn ffactorau posibl i esbonio'r gostyngiad hwn ond nid oedd modd ymchwilio'n fanwl iddynt o fewn yr amserlen.

O ganolbwyntio ar blwyf (a phentref) y datblygiad ei hunan yn ôl Cyfrifiad 2001 ganwyd 70.9% o drigolion plwyf Botwnnog yng Nghymru, gyda 27.5% wedi'u geni yn Lloegr. Yn Ionawr 2001 dengys bod 29% o drigolion y plwyf yn byw ar eu pen eu hunain, 36.6% lle mae 2 berson yn cyd-fyw, 12.3% 3 person yn cyd-fyw, 11.8% 4 person, 8.4% 5 person a 2% 6 person. Dengys felly bod dros 65% o drigolion y plwyf unai yn byw ar eu pen eu hunain neu gydag un person arall – gyda thraean yn byw mewn tŷ gyda rhwng 3 a 6 person. Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd 66.7% o drigolion plwyf Botwnnog heb blant, 7% hefo un plentyn rhwng 0 a 18 oed yn ddibynnol arnynt a 22.6% hefo 2 blant rhwng 0 a 18 oed yn ddibynnol arnynt. Eto o ran cyfansoddiad y cartref dengys mai rhwng 16% ac 20% o boblogaeth y tri plwyf sydd wedi ymddeol yn 2001. Diau felly y bydd dyfodiaid 12 teulu pellach i'r pentref yn fanteisiol o ran union cydbwysedd grwpiau oedran.

3. A: Proffil ieithyddol tenantiaid

Mae Tabl 1 Atodiad A yn amlygu proffil ieithyddol y tenantiaid sy'n casglu:

- Iaith mae'r teulu (tenantiaid) yn ei siarad amlaf fel % = 87.5% Cymraeg gyda
 - 100% o'r tenantiaid yn siaradwyr Cymraeg – cyfanswm o 10 cwpl a 2 denant sengl.
 - 100% o bartneriaid tenantiaid yn siaradwyr Cymraeg.
 - Cymraeg yw iaith cartref 9 o'r 12 tenantiaid gyda 3 yn siarad Cymraeg a Saesneg.
 - Cymraeg yw'r iaith mae'r teulu yn ei siarad amlaf gan 10 o deuluoedd tenantiaid, gydag 1 teulu yn siarad Cymraeg a Saesneg ac 1 teulu yn siarad Saesneg.

O ystyried y data uchod, gwelir fod cyfansoddiad ieithyddol y tenantiaid a'u teuluoedd/partneriaid yn uwch (87.5%) na chanran siaradwyr Cymraeg plwyf Botwnnog (76.9%). Ym Botwnnog ac nid ar wasgar ar draws y tri plwyf fydd tenantiaid yn byw, felly canolbwyntiwyd ar blwyf Botwnnog yn unig.

4. B: Proffil cymunedol

- % siaradwyr Cymraeg ward etholiadol Botwnnog sef 76.9% yn ôl Cyfrifiad 2001. (80.1% yn ôl Cyfrifiad 1991.)

5. B: Proffil Ysgolion y dalgylch

- % disgyblion o gartrefi Cymraeg Ysgol Gynradd Pont y Gof sef 61% a % disgyblion o gartrefi Cymraeg Ysgol Uwchradd Botwnnog sef 77%. Cyfanswm cronnus o 69%

6. Casgliad

A		B	
% teuluoedd (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg amlaf		% Siaradwyr Cymraeg y ward etholiadol Botwnnog (Cyfrifiad)	% Nifer disgyblion o gartrefi Cymraeg Ysgol Pont y Gof ac Uwchradd Botwnnog (holiadur ysgol):
			Pont y Gof Ysgol Uwchradd Botwnnog
			61% 77%
		76.9%	69%
87.5%		72.9%	

Yn yr achos hwn mae A yn fwy na B sy'n golygu fod datblygiad Congl Meinciau yn +1 sgôr Cadarnhaol sy'n golygu bydd y preswylwyr y datblygiad yn atgyfnerthu a chynyddu canran siaradwyr Cymraeg ward Botwnnog, a hynny oddeutu 14%. Er hynny, yn gyffredinol, dylid pwylo o ran defnyddio cymhareb rhwng patrwm siarad clwstwr bychain o bobl ar y naill law a gallu poblogaeth i siarad yr iaith ar y llall. Yn benodol yn achos cymuned Botwnnog diau fod gallu gyfystyr â defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Dyfarniad a Sgôr cronus:	+1.0 Cadarnhaol.
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	1. Hyfforddiant anwytho tenantiaid Congl Meinciau > dylai bwysleisio patrwm defnydd iaith Botwnnog a'r dalgylch a phwysigrwydd iaith a diwylliant i'r ardal.

2. Heb sicrwydd o denantiaid sy'n siarad Cymraeg pa mor debygol fydd tenantiaid newydd i gymhathu/integreiddio'n ieithyddol i gymuned y datblygiad?

Sylwadau:

1. Proffil ieithyddol tenantiaid

Mae pob tenant a'u partneriaid yn siaradwyr Cymraeg a'r iaith a siaredir amlaf ymhlith 87.5% ohonynt yw Cymraeg. O ran iaith gweithgareddau cymdeithasol mae 16 person yn defnyddio'r Gymraeg yn unig, 4 yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Saesneg, 2 yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Dwyieithrwydd ac 1 person yn defnyddio Saesneg yn unig. Yn ieithyddol maent felly yn gymhathol i gymuned y datblygiad, ond bod angen osgoi sefyllfa lle mae un teulu sy'n siarad Saesneg adref yn dylanwadu'n negyddol ar eraill yn y datblygiad a thu hwnt.

2. Cyffredinol

Dylid nodi mai trigolion lleol sydd unai wedi byw neu weithio yn yr ardal am o leiaf 5 mlynedd yw'r holl denantiaid. Maent felly yn gyfarwydd a'r ardal a'r diwylliant lleol.

Un o argymhellion yr ardrawiad hwn yw i... "Swyddogion cymunedol Cymdeithas Tai [i] lunio a chyflwyno hyfforddiant anwytho te nantiaid fyddai'n cynnwys elfennau o gymhathu/integreiddio i'r gymuned newydd. Byddai hyfforddiant anwytho yn rhan o becyn ôl-ofal y Gymdeithas Tai ac yn amod yn y cytundeb o dderbyn tenantiaeth i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel eu gilydd. Byddai hyfforddiant o'r fath hefyd yn fodd i esmwytho integreiddio i'r gymuned ac i leihau a negyddu gwrthwynebiad lleol i'r datblygiad tai fforddiadwy."

3. Barn Ysgolion y dalgylch - Cynlluniau/ ymgyrchoedd i gymhathu/ integreiddio poblogaethau newydd i'r cymunedau, a pha mor llwyddiannus oeddynt? (ateb gan 2 ysgol)

Llidiardau, Rhoshirwaun: Cadeiryddes Llywodraethwyr dysgu Cymraeg i Oedolion a TWF.

Tudweiliog: Ychydig iawn o fewnfudo sydd wedi bod yn nalgylch Tudweiliog yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ton o ymfudo yn y gorffennol – ychydig iawn ers i'r prisiau tai godi'n sylweddol rai blynyddoedd yn ôl. Cyrsiau Cymraeg i rieni / oedolion – chafwyd dim ymateb i gwrs gynigwyd ar gyfer rhieni'r dalgylch (dim cymdeithas ohonynt).

Dyfarniad a Sgôr cronus:

+1.0 Cadarnhaol

Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:

1. Partneriaeth Tai Gwynedd i annog pob Cymdeithas Tai i fabwysiadu'r argymhelliad uchod.
2. Cymdeithas Tai Eryri i ddangos arweiniad trwy fabwysiadu'r argymhelliad uchod gyda datblygiad Congl Meinciau a monitro'i effeithiolrwydd.

3. Beth fydd effaith tebygol dyfodiad stoc tai gwag ar sefyllfa ieithyddol pentrefi eraill yr ardal?

Sylwadau:

1. A: Proffil ieithyddol tenantiaid (a thenantiaid/prynwyr stoc tai gwag)

Dengys bod 1 tenant yr un yn byw ym Motwnnog, Sarn Melltelyn, Nanhoron, Garn Fadrun, Aberdaron a Bryncroes - y cyfan o fewn ffiniau 'byw/gweithio' y tri plwyf (6), a bod 1 tenant yr un yn byw ym Mynytho, Llanbedrog, Llannor, Abererch, Trefor ac Y Ffôr (6). O ran daliadaeth y tai ddaw yn wag dengys bod:

- 4 yn dai rhent landlord preifat,
- 2 yn dai rhent Cartrefi Cymunedol Gwynedd (Cyngor Sir cynt),
- 2 yn dai rhent stad breifat (amod tenantiaeth yw bod yn gyflogedig gan y stad) a
- 4 yn dai aelodau'r teulu.

Felly gall rhwng 4 ac 8 o'r uchod gael eu rhentu allan a 4 eu gwerthu gan y landlord preifat ar y farchnad agored er bod y farchnad honno yn ddistaw ar hyn o bryd a phrisiau'n isel.

Mae natur wasgaredig tai gwag y tenantiaid yn golygu na chaiff eu hymadawiad yr un effaith ieithyddol arwyddocaol a phe byddai dyweder 3 neu 4 teulu yn gadael un pentref gwledig bychain.

Ymhen deuddeg mis bydd angen cynnal Cam A 4 o'r fframwaith methodoleg sef sefydlu % cyfartaledd cronrus iaith tenantiaid a prynwyr newydd a chymharu hynny gyda cyfanswm cronrus siaradwyr Cymraeg holl wardiau'r stoc tai gwag sef 73.7%.

2. B: % cyfartaledd siaradwyr Cymraeg holl wardiau etholiadol y stoc tai gwag

3. Casgliad

Dengys felly bod y tenantiaid yn deillio o bentrefi gwahanol wasgaredig o fewn Llŷn a chyrion Eifionydd. Mae maint poblogaeth y pentrefi hyn hefyd yn awgrymu mai isel fyddai effaith ieithyddol dyfodiad 1 teulu di-Gymraeg i eiddo gwag. Er enghraifft yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd poblogaeth Llanbedrog yn 1,020 ac Abererch yn 1,436. Y rhagdybiaeth ar ei waethaf felly yw na fyddai 1 tŷ gwag gyda tenant neu brynwyr di-Gymraeg mewn 12 pentref gwahanol yn cael unrhyw effaith ieithyddol andwyol ar y Gymraeg. Ond mewn rhai amgylchiadau gallai hynny ddibynnu ar iaith a natur cymeriad preswylwyr newydd, ac effaith hynny ar ganran y boblogaeth ddwyieithog ac uniaith. Diau y byddai unrhyw blant oed ysgol yn dysgu Cymraeg yn unol â pholisi addysg Gwynedd, ond ni ddylid diystyru'r ffaith y gall nifer cymharol fechan o fewnfudwyr gael effaith negyddol ar gymunedau os yw'r boblogaeth yn isel a gwledig. Mae angen pwylo felly cyn dod i farn gyffredinol bendant ar sail niferoedd isel. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl rhagweld natur ieithyddol aelwydydd 'gwag' ond mae'r effaith ieithyddol yn isel doed a ddelo.

Natur yr eiddo	Posibilrwydd o ddenu tenant	Posibilrwydd o ddenu perchennog newydd
4 tŷ eiddo landlord preifat	4	4
2 dy Ystâd	2	-
2 dy Cymdeithas Tai	2	-
[Llai 4 tŷ aelodau teulu'r tenantiaid]	0	-

A	B
% cyfartaledd cronus o denantiaid a prynwyr newydd	% cyfartaledd siaradwyr Cymraeg holl wardiau etholiadol y tai
X%	X%

Gan nad yw Cam 4 wedi ei gyflawni eto nid oes modd rhoi dyfarniad sgôr terfynol yn awr yn achos datblygiad Congl Meinciau. Mae'r effaith ieithyddol yn isel oherwydd natur wasgaredig y tai gwag felly rhoddir sgôr 0 Niwtral yn ddarostyngedig i ganlyniad cyflawni Cam 4 ymhlen blwyddyn.

Dyfarniad a Sgôr cronus:	0 Niwtral (yn ddarostyngedig i gynnal Cam A 4.)
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	

4. Ydy'r datblygiad yn debygol o ddylanwadu ar raddfa allfudo ymhlith pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg o'r ardal?

Sylwadau:

1. Gwybodaeth gefndirol

Dengys ar gyfartaledd bod 5.1% yn allfudo o Wynedd yn flynyddol rhwng 2000 – 2004.

Tabl 2: Poblogaeth y 3 plwyf 2001 - 2007

Ward	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007
Aberdaron	1,017	1,057	1,065	1,043	1,063	1,063	1,046
Botwnnog	981	923	925	930	954	950	970
Tudweiliog	783	828	813	833	815	804	800

Yn ôl proffil ystadegol ward Botwnnog a Tudweiliog ar sail Cyfrifiad 2001, symudodd 49 unigolyn i'r ardal a 43 allan o'r ardal.

Rhwng 2001 a 2007 dengys y patrwm symudedd poblogaeth canlynol yn y tri plwyf – cynnydd bychain o 29 (neu 2.7%) yn Aberdaron, lleihad o 9 (neu 0.9%) ym Botwnnog a chynnydd o 17 (neu 2.1%) yn Nhudweiliog – cyfanswm o 37 (neu 3.9%) unigolyn ychwanegol.

2. Ymateb cymunedol

- Effaith y datblygiad ar fewnfudo/allfudo a diboblogi gwledig yn arbennig ymhlith pobl ifanc (c17)
 - “Cadarnhaol – er nad yw hyn yn dilyn o anghenraid.”
 - “Cadarnhaol – os ydy'r gwaith ar gael iddynt.”
 - “Ddim yn gwybod.”

3. Barn Ysgolion y dalgylch - Pa effaith gaiff adeiladu 12 tŷ preswyl fforddiadwy ar natur symudedd poblogaeth y tri plwyf? – ymateb gan 2 ysgol

<u>Uwchradd Botwnnog</u>	<u>Crud y Werin Aberdaron</u>	<u>Llidiardau, Rhoshirwaun</u>	<u>Pont y Gof, Botwnnog</u>	<u>Tudweiliog</u>
Arwain at leihad mewn allfudo	Dim yn rhagweld unrhyw newid	Arwain at leihad mewn allfudo	Arwain at leihad mewn allfudo	-

4. Casgliad

Mae 11 o'r 12 tenant yn deuluoedd gyda phlant ac yn gweithio'n lleol – felly'n llai tebygol o fod yn y categori pobl ifanc sy'n allfudo. Mae bodolaeth 12 tŷ fforddiadwy sy'n targedu pobl lleol ym Motwnnog yn cyfrannu at leihau rhywfaint ar y canran sy'n gorfod chwilio ymhellach am dŷ fforddiadwy. Er hynny mae'n bosibl y byddai dyfodiaid cyflogaeth newydd yn sgil y Ganolfan Fenter yn gallu cyfrannu rhywfaint at atal y patrwm o allfudo ymhlith pobl ifanc, ond gan nad yw'r Ganolfan yn weithredol eto nid oes modd sefydlu graddfa'r cyfraniad hwnnw. Diau y gallai'r ffaith fod 12 tŷ ar gael i bobl lleol fod yn ffactor dros gymell rhai o allfudwyr o'r ardal i symud yn ôl maes o law fel bydd tenantiaeth yn newid dwylo – ond byddai hynny'n rhagdybio nad ydynt yn gallu fforddio tŷ ar y farchnad agored. Er bod sawl aelod o'r cyhoedd a 3 ysgol Gynradd o'r farn y gallai'r datblygiad ddylanwadu ar raddfa allfudo, diau nad dyna fyrdwn pennaf datblygiadau tai lleol. Yn gyffredinol felly cesglir na fyddai'r datblygiad o'r graddfa bychain hwn yn dylanwadu ar y patrwm allfudo felly y dyfarniad sgôr yw...

Dyfarniad a Sgôr cronrus:	0 Niwtral
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	1. Yn ddelfrydol mewn hinsawdd economaidd anodd dylai Cymdeithas Tai Eryri geisio sicrhau bod tenantiaeth cyfran o unedau busnes y Ganolfan Fenter yn arwain at greu cyflogaeth lleol newydd i bobl ifanc fyddai fel arall yn debygol o adael yr ardal i chwilio am waith.

5. Ydy'r datblygiad yn debygol o ddylanwadu ar raddfa mewnfudo pobl di-Gymraeg i'r ardal?

Sylwadau:

1. Gwybodaeth gefndirol


Gwynedd

Bob blwyddyn rhwng 1999 a 2004, ar gyfartaledd derbyniodd Gwynedd 600 o bobl o'r DU. Dros yr un cyfnod derbyniodd Wynedd 3,500 o bobl yn mudo i fewn ac fe adawodd 2,800 o bobl o'r ardal. Mae'r mewnlif yma yn cyferbynnu a 29 pob mil o boblogaeth, y 6ed uchaf yng Nghymru, a gyda llif allan o 24 pob mil, y 4ydd uchaf yng Nghymru. O fewn Gogledd Orllewin Cymru roedd y mwyafrif o fudwyr yn dod o Ogledd Gorllewin Lloegr (dros 42%) ac o Ganolbarth Gorllewin Lloegr (tua 16%).

Dwyfor

Dengys diagram 1 isod y cafwyd ar y cyfan ostyngiad cyson yng nghanran siaradwyr Cymraeg Cymru dros y ganrif ddiwethaf, ag eithrio cyfrifiad 2001 ple cafwyd cynnydd bychain (2.1%), gyda canrannau siaradwyr Cymraeg Dwyfor yn parhau yn gymharol uchel o'i gymharu â sefyllfa Gwynedd a Chymru.

Diagram 1: Newid mewn canran % siarad Cymraeg 1901-2001 Dwyfor, Gwynedd a Chymru



Er hyn, mae Dwyfor hefyd wedi profi gostyngiad cyson yng nghanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Dr Delyth Morris, hyd at 1971, allfudo oedd yn bennaf gyfrifol am y dirywiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg, ond ers 1981, gwelwyd mai mewnfudo ymhlith y di-Gymraeg fu'n bennaf gyfrifol am y newid ieithyddol. Rhwng 1981 ac 1991, cynyddodd canran pobl di-Gymraeg o 19% i 25% o'r boblogaeth gyfan. Erbyn 2001, yr oedd 27% o boblogaeth Dwyfor yn ddi-Gymraeg. Dengys peth tystiolaeth hefyd nad oedd rhai rhieni Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Yn 2001, roedd 10% o deuluoedd Gwynedd gyda'r ddau riant yn siarad Cymraeg ond â phlant 3-4 oed nad oedd yn siarad yr iaith. Dengys bod y mewnlifiad cynyddol o boblogaeth ddi-Gymraeg i Ddwyrfor ar ôl 1981 i'w briodoli'n rhannol i economi de ddwyrain Lloegr yn 'gorboethi' gan arwain at gynnydd ym mhrisiau tai a symudiad pobl fwyfwy tua'r gorllewin i chwilio am eiddo rhatach.

Tra bod mewnfudo i Ddwyrfor wedi arafu rhwng 1991-2001, roedd y nifer o fewnfudwyr yn parhau'n eithaf sylweddol - yn y 12 mis cyn Cyfrifiad 2001, mudodd 5,780 o bobl i Wynedd, gyda 60% ohonynt yn dod o Loegr. Y tebygolrwydd ymhlith y 40% mewnfudwyr eraill yw iddynt naill ai symud o fewn Cymru a Gwynedd neu o wledydd tramor. Dylid nodi hefyd y gallai nifer cymharol fechan o fewnfudwyr gael effaith negyddol ar gymunedau os yw'r boblogaeth yn isel a gwledig – er enghraifft, er mai ond 65 person di-Gymraeg ymgartrefodd yn Nhudweiliog (Dwyfor) rhwng 1991-2001, roedd yn cyfateb i ostyngiad o 10% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

2. Ymateb cymunedol

- Effaith y datblygiad ar fewnfudo/allfudo a diboblogi gwledig yn arbennig ymhlith pobl ifanc (c17)
 - “Mae'n bosibl i'r datblygiad gael effaith ar fewnfudo. Mae'r teuluoedd fydd yn symud i'r tai newydd yn byw ym Mhen Llŷn yn barod, felly fe fydd yna ddeuddeg o dai yn dod yn wag gyda'u gilydd. Rwyf yn gwybod fod rhai o'r tai yma mewn cyflwr gwael ac yn fwy na thebyg byddant yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, ac mae posibilrwydd bydd cyfran uchel o'r tai yn mynd yn dai haf neu dai i fewnfudwyr, o'r tu allan i Wynedd.”
 - “Cadarnhaol – er nad yw hyn yn dilyn o anghenraid.”
 - “Cadarnhaol – os ydy'r gwaith ar gael iddynt.”
 - “Ddim yn gwybod.”

3. Barn Ysgolion y dalgylch - Pa effaith gaiff adeiladu 12 tŷ preswyl fforddiadwy ar natur symudedd poblogaeth y tri plwyf? – ymateb gan 2 ysgol

<u>Uwchradd Botwnnog</u>	<u>Crud y Werin Aberdaron</u>	<u>Llidiardau, Rhoshirwaun</u>	<u>Pont y Gof, Botwnnog</u>	<u>Tudweiliog</u>
-	Dim yn rhagweld unrhyw newid	Arwain at fwy o fewnfudo	-	Arwain at fwy o fewnfudo



4. Casgliad

Yn uniongyrchol nid yw'n debygol y caiff y datblygiad tai ar gyfer pobl leol ddylanwad ar raddfa mewnfudo i Ben Llŷn er bod 2 ysgol o'r farn y gallai. Serch hynny dros amser gall cyfran o'r 12 tŷ gwag yn y pentrefi cyfagos gael eu rhentu neu eu prynu gan fewnfudwyr unai fel cartref newydd neu dŷ haf. Ond fel a nodwyd eisoes nid yw'r cyfanswm o 1 tŷ mewn 12 pentref yn mynd i gael unrhyw effaith arwyddocaol ar batrwm neu duedd mewnlifiad i'r ardal – yn arbennig o gofio graddfa'r mewnlifiad. Heb gynnal Cam A 4 nid oes modd rhagdybio'r patrwm tebygol ymlaen llaw gan fod cynifer o ffactorau yn dylanwadu ar iaith tenant neu berchennog tai gweigion ym Mhen Llŷn. Yn gyffredinol felly cesglir na fyddai'r datblygiad o'r graddfa bychain hwn yn dylanwadu ar y patrwm mewnfudo felly y dyfarniad sgôr yw...

Dyfarniad a Sgôr cronrus:	0 Niwtral (yn ddarostyngedig i gynnal Cam A 4.)
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	

6. Pa effaith gaiff y datblygiad ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned leol (sef rhwydweithiau a gweithgareddau cymdeithasol megis Carnifal, Gwyliau, a chymdeithasau, sefydliadau a mudiadau megis Cyngor Cymuned a Grwpiau Gwirfoddol lleol?)

Sylwadau:

1. A: Proffil ieithyddol tenantiaid

- O ran iaith mae'r teulu yn ei siarad amlaf adref mae 87.5% yn siarad Cymraeg.
- 69.6% (neu 16) o drigolion newydd (pobl a phlant) yn siarad Cymraeg yn unig mewn gweithgareddau cymdeithasol a 26.1% o drigolion newydd yn siarad cyfuniad o Gymraeg a Saesneg, neu yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Dwyieithrwydd (neu 6)
 - gydag 1 person yn defnyddio Saesneg yn unig.
 - Wrth i blant tenantiaid Congl Meinciau gymdeithasu ymysg eu gilydd ac yn y pentref, mae'n debygol mai Cymraeg fydd prif iaith y cyfathrebu – yn arbennig hefyd wrth ystyried dylanwad ieithyddol cronus Ysgol Pont y Gof fel pwerdy neu gatalydd iaith lleol. Mae 61% o ddisgyblion Ysgol Pont y Gof yn hanu o gartrefi Cymraeg (a 39% naill ai o gartrefi Saesneg neu ddwyieithog - 14% o gartrefi Saesneg a 25% o gartrefi dwyieithog). Erbyn Ysgol Uwchradd Botwnnog mae'r canran yn cynyddu i 77%.

2. B: Proffil Ysgolion

Ar gyfartaledd fel canran, yn ôl 5 ysgol mae lefel bywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned yn 85.5% neu 'rhwng 100% a 71%.

3. B: Proffil Cymunedol

Ar gyfartaledd fel canran, yn ôl 3 Cyngor Cymuned lleol (Aberdaron, Botwnnog a Tudweiliog) mae lefel bywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned hefyd yn 85.5% neu 'rhwng 100% a 71%.

4. Casgliad

A			B
% teuluoedd (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg amlaf	% preswylwyr (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg yn unig mewn gweithgareddau cymdeithasol	% preswylwyr (tenantiaid) sy'n siarad cyfuniad o Gymraeg/ Saesneg neu Cymraeg/ Dwyieithrwydd mewn gweithgareddau cymdeithasol	% lefel bywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned leol
	69.6%	26.1%	
87.5%	95.6%		
91.5%			85.5%

Yn yr achos hwn mae A yn fwy na B ond o ddilyn y band +/-10% mae A = B sy'n golygu fod datblygiad Congl Meinciau yn sgôr 0 Niwtral. Gan fod A yn fwy na B bydd yr effaith yn debygol o atgyfnerthu'r Gymraeg.

Mae 36 unigolyn mewn 10 teulu sy'n arddel y Gymraeg (allan o 12 teulu a chyfanswm o 42 unigolyn) yn fas critigol sy'n debygol o arwain at gynnal ac atgyfnerthu ethos Cymraeg a Chymreig y gymuned leol. Ond dylid gofalu nad yw dylanwad iaith cartref Saesneg/dwyieithog dau deulu yn ymestyn ei effaith ar blant eraill y datblygiad ac yn y pentref a'r ysgol.

Dyfarniad a Sgôr cronrus:

0 Niwtral

Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:

1. Dylai hyfforddiant anwytho tenantiaid arwain at sbarduno a cymell tenantiaid i gyfranogi'n llawn yn y gymuned leol sy'n rhoi bri naturiol i'r Gymraeg fel rhan o wead y gymuned. Gallai hynny ddylanwadu ar agweddau unigolion at y Gymraeg allai yn ei dro arwain at newid arfer iaith gyda'r teulu – yn arbennig os mai'r Gymraeg yw'r *modus operandi*.

Adran B: Addysg (7- 8) (pwysiad uchel – cyfanswm gwerth sgôr o 2.0)

7. Pa effaith gaiff y datblygiad ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lleol?

Sylwadau:

1. A: Proffil ieithyddol tenantiaid

- 87.5% o'r teuluoedd (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg amlaf gyda:
 - 10 teulu Cymraeg sef 36 unigolion (18 oedolyn ac 18 plentyn), 1 teulu dwyieithog o 3 unigolion (2 oedolyn ac 1 plentyn) ac 1 teulu Saesneg (2 oedolyn ac 1 plentyn).
- 57.1% (neu 4 allan o 7) o blant tenantiaid yn defnyddio Cymraeg yn unig mewn gweithgareddau cymdeithasol a 28.6% (neu 2) yn defnyddio Cymraeg a Saesneg neu yn defnyddio Cymraeg a Dwyieithrwydd ac
 - 14.3% (neu 1) yn defnyddio Saesneg yn unig.
- Felly 18 plentyn – 16 o gartref Cymraeg, 1 plentyn o gartref dwyieithog ac 1 plentyn o gartref Saesneg. Mae hyn yn cyfateb i 10 plentyn sydd mewn Ysgol Gynradd (5 yn Llanbedrog, 4 eisoes ym Mhont y Gof ac 1 mewn Ysgol anghenion arbennig), 7 sydd ar hyn o bryd o dan 3 oed, ac 1 disgybl sydd eisoes yn Ysgol Uwchradd Botwnnog.

2. B: Proffil Ysgolion – iaith gymdeithasol plant ysgol

leithyddol	Uwchradd Botwnnog:	Pont y Gof, Botwnnog:	Cymraeg – Cymraeg gan amlaf (100% - 75%)		Cymraeg a Saesneg gan amlaf (50%-50%)		Saesneg gan amlaf – Saesneg (25%-0%)	
laith disgyblion:	Clwb Brecwast	Amherthnasol	-	-	-	-	-	-
	Amser chwarae	Cymraeg	100%	75%	-	-	-	-
	Yn adeiladau'r Ysgol	Cymraeg	100%	100%	-	-	-	-
	Wrth y bwrdd amser cinio	Cymraeg	100%	100%	-	-	-	-
	Yn y dosbarth	Cymraeg	100%	100%	-	-	-	-
	Clwb ar ôl Ysgol	Cymraeg	100%	75%	-	-	-	-
Cyfanswm ar gyfartaledd		100%	90%	-	-	-	-	-

3. Casgliad

A			B	
% teuluoedd (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg amlaf	% plant oed ysgol (tenantiaid) sy'n siarad Cymraeg yn unig mewn gweithgareddau cymdeithasol	% plant oed ysgol (tenantiaid) sy'n siarad cyfuniad o Gymraeg/Saesneg neu Cymraeg/Dwyieithrwydd mewn gweithgareddau cymdeithasol	% laith gymdeithasol plant Ysgol	
	57.1%	28.6%	Pont y Gof	Ysgol Uwchradd Botwnnog
87.5%	85.7%		90%	100%
86.6%			95%	

Yn yr achos hwn mae A yn llai na B sy'n golygu fod datblygiad Congl Meinciau yn -1 sgôr negyddol. Ond o fabwysiadu band sgôr +/-10% mae A = B sydd yn rhoi sgôr 0 Niwtral. Diau bod canrannau A a B yn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol iachus yn y gymuned sydd ymhell uwchlaw y trothwy 70% ar gyfer gwarantu cynaldwydd ieithyddol cymunedau. Yn y cyd-destun penodol hwn felly mae sgôr Niwtral yn golygu cynnal y patrwm presennol o ran defnydd cymdeithasol uchel o'r Gymraeg.



Dyfarniad a Sgôr cronnus:	0 Niwtral
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	1. Pennaeth Ysgol Pont y Gof i ystyried priodoldeb mabwysiadu argymhellion 3.3. Hyfforddiant Gemau Buarth, 5.1. Cynllun i wobrwyo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion, 5.2. Cynllun 'buddy' buarth/Pencampwr Iaith, 5.3. Cyngor Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o 'Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant sector cynradd Gwynedd' i'w mabwysiadu'n lleol er mwyn cynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg.

8. Ydy adleoliad teuluoedd i'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd pentrefi eraill yr ardal?

Sylwadau:

1. Proffil ieithyddol tenantiaid

- 10 teulu Cymraeg sef 36 unigolion (18 oedolyn ac 18 plentyn), 1 teulu dwyieithog o 3 unigolion (2 oedolyn ac 1 plentyn) ac 1 teulu Saesneg (2 oedolyn ac 1 plentyn).
- Felly 18 plentyn – 16 o gartref Cymraeg, 1 plentyn o gartref dwyieithog ac 1 plentyn o gartref Saesneg. Mae hyn yn cyfateb i 10 plentyn sydd mewn Ysgol Gynradd (5 yn Llanbedrog, 4 eisoes ym Mhont y Gof ac 1 mewn Ysgol anghenion arbennig), 7 sydd ar hyn o bryd o dan 3 oed, ac 1 disgybl sydd eisoes yn Ysgol Uwchradd Botwnnog. Mae'r 7 plentyn sydd eto heb ddechrau Ysgol yn byw yn Llannor, Y Ffôr, Abererch, Bryncroes a Llanbedrog gyda 2 blentyn mewn un teulu ym Motwnnog. Felly mae 10 plentyn oed ysgol yn cael eu dadleoli o ysgolion cynradd.

2. Barn ysgolion y dalgylch

- Gallai datblygiadau tai fforddiadwy fod yn andwyol iawn i blwyfi cyfagos os y collir teuluoedd Cymraeg o'r ardal.

3. Ymateb cymunedol

- Effaith ar Ysgolion Cynradd cyfagos o ran niferoedd disgyblion, capasiti nifer disgyblion ysgol, patrymau defnydd iaith cymdeithasol a chefnogaeth rhieni i'r ysgol (c13)
 - "Fe all y datblygiad gael dipyn o effaith ar Ysgolion Cynradd. Mae posibilrwydd i deuluoedd o Aberdaron a Tudweiliog symud i Fotwnnog, gan efallai wanhau yr ysgolion hynny ac efallai arwain at ormod o blant yn mynychu Ysgol Pont y Gof, gan fod yr Ysgol yma yn agos i fod yn llawn ar hyn o bryd. Mae niferoedd yn Ysgol Llidiardau yn Rhoshirwaun yn bur isel ar hyn o bryd, ac mae posibl gweld sefyllfa ble buasai y mwyafrif o blant Llidiardau yn symud i Bont y Gof. O ran yr Ysgolion Cynradd ac effaith posibl ar yr iaith buasai yn well pe buasai pedwar neu chwech o dai wedi cael eu codi, yn Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog. Fe all gynyddu gweithgareddau codi arian ym Mhont y Gof ar draul yr Ysgolion a chymdeithasau eraill."

4. Casgliad

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pa effaith gaiff adleoli plant o bentrefi cyfagos ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn ysgolion y pentrefi hynny. Ar ei waethaf dim ond hyd at 1 teulu di-Gymraeg mewn nifer o bentrefi fyddai sgil effaith y datblygiad, sy'n golygu effaith ieithyddol isel. Yn yr un modd gallai teuluoedd Cymraeg eu hiaith gael eu denu i nifer o'r tai gan gryfhau sefyllfa ieithyddol yr ysgol a'r gymuned honno. Er hynny heb wybod faint o blant fyddai mewn teuluoedd mewn unrhyw un pentref nac ychwaith ystyried natur ieithyddol ysgolion y pentrefi hynny tan cwblhau Cam A 4 mae'n amhosibl rhagweld, ond o gofio effaith ieithyddol ymylol y rhagdybiaeth presennol yw.....



Dyfarniad a Sgôr cronnus:	0 Niwtral (yn ddarostyngedig i gynnal Cam A 4.)
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	

Adran C: Cymunedol (9-10) (pwysiad canolog – cyfanswm gwerth sgôr o 1.0)

9. Ydy'r datblygiad yn debygol o gyfrannu at gynladwyedd cyfleusterau lleol fel neuadd bentref, siopau, trafnidiaeth gyhoeddus, canolfan hamdden, pwll nofio, meddygfa a llyfrgell?

Sylwadau:

1. Ymateb tenantiaid

- Gwasanaethau lleol megis siop, swyddfa bost, archfarchnad, garej, caffï a thafarn) (c17)
 - Mae 7 o'r tenantiaid yn defnyddio gwasanaethau lleol (o fewn 10 -15 milltir) yn 'ddyddiol'.
 - Mae 4 o'r tenantiaid yn defnyddio gwasanaethau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) 'pob yn ail ddiwrnod'.
 - Mae 1 o'r tenantiaid yn defnyddio gwasanaethau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) yn 'wythnosol'.
- Cyfleusterau lleol megis Canolfan Hamdden, Pwll Nofio, Llyfrgell) (c18)
 - Mae 2 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) yn 'ddyddiol'.
 - Mae 2 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) 'pob yn ail ddiwrnod'.
 - Mae 2 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) yn 'wythnosol'.
 - Mae 2 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) 'ambell dro mewn mis'.
 - Mae 3 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) 'efallai unwaith y mis'.
 - Mae 1 o'r tenantiaid yn defnyddio cyfleusterau lleol (o fewn 10 – 15 milltir) 'bron byth'.

Noder: Yn yr achos hwn mae gwasanaethau lleol o fewn 10 – 15 milltir yn cyfeirio at nifer o bentrefi ar draws Llŷn a chyrion Eifonydd – wele cwestiwn 3 uchod.

2. Ymateb cymunedol

- Effaith darparu tai fforddiadwy i economi lleol Botwnnog a Phen Llŷn (c20)
 - “Pwysig iawn” yn ôl 3 ymatebydd.
 - “Cadarnhaol i gyd, wrth gwrs. Mwy o bobl. Efallai y byddant yn defnyddio siopau Pwllheli sydd yn dda. Efallai y byddant yn archebu pethau oddi ar y we, sy’n da i ddim i fusnesau Pwllheli, oni bai am ‘couriers’. Byddant angen prynu pethau i’w tai, sy’n golygu y bydd y we yn brysur, a Bangor, ac IKEA. Go brin y byddant yn siopa ym Mhwllheli.”
- Trafnidiaeth gyhoeddus
 - “Amheus os bydd yr effaith mor gadarnhaol a hynny ar y defnydd na’r effeithiolrwydd o dtrafnidiaeth gyhoeddus.”
 - “Dim effaith mae’n debyg. Bydd gan bawb gar mae’n debyg.”
 - “Mae’r bws yn mynd heibio y safle, bydd yn hwylus iawn i deithio i Bwllheli. Dim llawer o newid o ran gwasanaeth tacsï.”

3. Casgliad

Gan dderbyn bod pellter o 10-15 milltir yn ehangach na dalgylch pentref Botwnnog diau y bydd dyfodiad hyd at 42 aelod ychwanegol i gymuned Botwnnog yn cyfrannu’n gadarnhaol at gynladwyedd cyfleusterau lleol. Bydd dyfodiaid y Ganolfan Fenter hefyd yn hwb lleol er nad yn rhan o’r ardrawiad hwn.

Dyfarniad a Sgôr cronrus:	+0.5 Cadarnhaol
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo’r iaith Gymraeg:	1. Gallai hyfforddiant anwytho tenantiaid gynnwys cyfeirlyfr o’r gwasanaethau a’r cyfleusterau lleol sydd ar gael er mwyn sbarduno cefnogaeth ymhlith y trigolion newydd.

10. Ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn achosion o dorcyfraith e.e. tensiynau cymdeithasol, disodli, cyflwyno teuluoedd â phroblemau neu gasineb ieithyddol?

Sylwadau:

1. Ymateb cymunedol

- Effaith ar droseddu (er enghraifft yn deillio o gynnydd mewn tensiynau cymdeithasol, disodli, cyflwyno teuluoedd a phroblemau ayyb) (c18)
 - “Dibynnu ar sut bobl ydynt.”
 - “Negyddol”.
 - Ni ddylai y datblygiad gael effaith ar droseddu yn y pentref.”
 - “Mae hwn eto yn gwestiwn nad oes modd ei ateb gan nad yw y tenantiaid wedi eu dewis eto. Os bydd yna amryw o'r teuluoedd gyda problemau, cyffuriau etc, yna mae hyn yn mynd i greu tensiynau yn y pentref.”

2. Casgliad

Oherwydd proffil ieithyddol y tenantiaid, gyda phob un yn gallu siarad Cymraeg, mae'n annhebygol y bydd gwrthdaro cymdeithasol ar sail iaith, ond y tu hwnt i hynny mae bron yn amhosibl rhagweld heb fesur hynny oddeutu blwyddyn ar ôl i'r tenantiaid ymgartrefu yn Congl Meinciau. Ychwaith wrth i denantiaid newid dros amser – oni bai bod cefndir troseddol unigolion yn hysbys nid oes modd rhagweld os bydd yn arwain at gynnydd mewn achosion o dorcyfraith. Yn yr un modd gall y sefyllfa newid gyda dyfodiad unigolyn neu deulu yn symud i dŷ ar y farchnad agored neu fel tenant preifat.

Dyfarniad a Sgôr cronrus:

0 Niwtral

Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:

Adran CH: Economi a Thai (11-12) (pwysiad canolig – cyfanswm gwerth sgôr o 1.0)

11. Ydy'r datblygiad yn debygol o greu swyddi lleol ychwanegol i siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at gynnal neu hybu'r economi leol?

Sylwadau:

1. Gwybodaeth gefndirol

Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd 68.5% o drigolion ward Botwnnog mewn cyflogaeth, 41.4% yn gyflogai, 27.1 yn hunangyflogedig a 3% yn ddi-waith. Dengys mai'r 4 prif faes cyflogaeth pobl oed gwaith plwyf Botwnnog oedd:

- 19.1% Amaeth, hela a choedwigaeth,
- 14.6% Masnach cyfanwerthu a manwerthu, atgyweirio cerbydau modur,
- 13.5% Adeiladu, a
- 9.4% Ystadau, rhentu a gweithgareddau busnes.

2. Ymateb cymunedol

- Effaith ar un neu fwy o wasanaethau lleol (siopau, busnesau, teithiau bws, gwasanaeth tacsï ayyb) (c23)
 - “Nid oes siop yn y pentref ar hyn o bryd. Gall wneud niwed i siopau y pentrefi eraill. Yr unig fusnes yw'r Swyddfa Bost a gall ddod a mwy o fusnes iddi. Mae'r bws yn mynd heibio'r safle, bydd yn hwylus iawn i deithio i Bwllheli.”
 - “Cadarnhaol – teithiau bws – amheus os bydd yr effaith mor gadarnhaol a hynny ar y defnydd na'r effeithlonrwydd o drafnidiaeth gyhoeddus.”
- Effaith cadarnhaol neu negyddol posibl ar yr economi leol (c25)
 - “Gellir rhagweld y bydd hi'n bosibl agor siop ym Botwnnog eto ond gellid dadlau y byddai agor siop ym Botwnnog yn llwgu darpariaeth y ddwy siop yn Y Sarn.”

3. Casgliad.

Nid yw'r datblygiad yn creu gwaith ychwanegol – ag eithrio gwaith dros gyfnod penodol i'r datblygwr, ac felly yn uniongyrchol ni fydd yn arwain at greu swyddi lleol ychwanegol. Er hynny, bydd dyfodiad 42 unigolyn newydd i'r pentref yn cyfrannu at economi lleol Pen Llŷn os nad Botwnnog, gan dderbyn mai prin yw'r gwasanaethau lleol yno. Y tebygolrwydd mwyaf yw y caiff y gwasanaethau prin hynny hwb bellach gan gyfrannu at eu cynladwyedd. Ar lefel ehangach felly gallai Botwnnog elwa ond gallai'r pentrefi mae'r tenantiaid wedi ymadael fod ar eu colled – y cyfeirir ato fel dadleoliad incwm. Mae hyn yn arwain at greu effaith negyddol ar incwm (yn hytrach na chyflogaeth). Ond wrth gofio mai 1 teulu mewn nifer o bentrefi sydd yma, mae'r effaith negyddol yn cael ei leihau'n sylweddol. Diau y gallai dyfodiad Canolfan Fenter esgor ar rhyw nifer o swyddi lleol ychwanegol trwy osod unedau busnes a'r caffi, ond nid yw'r datblygiad hwnnw yn rhan o'r ardrawiad iaith hwn. Casglir felly y bydd y datblygiad yn cyfrannu at ymdrechion i gynnal a hybu'r economi leol ym Botwnnog, ond nid yn uniongyrchol yn creu swyddi lleol ychwanegol felly....

Dyfarniad a Sgôr cronrus:	0 Niwtral
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	

12. Ydy'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai yr ardal leol?

Sylwadau:

1. Gwybodaeth gefndirol

Ym Mawrth 2008 roedd 445 o drigfannau yn ward Botwnnog gyda pris cyfartalog tai yn £136,500 yn Ionawr – Rhagfyr 2002. Yn Ebrill 2001 roedd 21 ail dŷ neu dŷ haf (amcangyfrif o 5,500 yn sirol²). Yn Ionawr 2001 dengys bod 48.6% o'r tai gyda perchennog cyflawn, 21.3% o'r perchnogion hefo morgais neu fenthyciad, 8.9% yn dai Cyngor, 1.5% yn dai Cymdeithas Tai ac 13.2% yn dai landlord preifat neu asiantaeth letya.

“Pryniant tai – mae'r rhan fwyaf o brynwyr yn drigolion Gwynedd

Cafodd mwy na dwy ran o dair o dai a brynwyd yng Ngwynedd rhwng 1 Gorffennaf 2001 a 30 Mehefin 2004 eu prynu gan bobl a oedd yn byw yn y Sir. Yr oedd y grŵp mwyaf o brynwyr wedyn, bron i dri o bob deg prynwr, yn bobl a oedd yn byw y tu allan i Wynedd ac Ynys Môn. Am y tro cyntaf ers llawer o flynyddoedd mae prisiau cyfartalog tai wedi gostwng yng Ngwynedd a Chonwy.”³

2. Ymateb cymunedol

- Effaith ar bris cyfartalog tai (c21)
 - “Dim newid.” Yn ôl 2 ymatebydd
 - “Cynyddu.”

3. Casgliad

Un o'r rhesymau dros ddatblygiad tai fforddiadwy Congl Meinciau oedd ymateb i'r sefyllfa o ran anallu trigolion lleol i fforddio tai ar y farchnad agored gan fod prisiau tu hwnt i'w cyrraedd. Diau felly na chaiff 12 tŷ fforddiadwy ddylanwad mawr ar bris cyfartalog tai gan na fyddant ar werth ar y farchnad agored ac felly ddim yn effeithio ar bris cyfartalog tai. Cynigir y tai ar delerau 'daliadaeth niwtral' gan roi'r opsiwn i'r ymgeiswyr llwyddiannus naill ai dderbyn tenantiaeth neu brynu cyfran ecwiti rhwng 50%-70%. Tra bydd 12 teulu yn llai yn ystyried chwilio am dŷ ar y farchnad agored, mae posibilrwydd y gallai hyd at 8 tŷ mewn nifer o bentrefi gael eu hysbysebu/gwerthu ar y farchnad agored. A fyddai'r tai hyn yn debygol o ddenu pris fyddai'n dylanwadu ar bris cyfartalog tai – yn arbennig mewn cyfnod o wasgfa ariannol a lleihad yn y farchnad dai trwy Wynedd a thu hwnt? Wele cwestiwn 3.

Dyfarniad a Sgôr cronus:	0 Niwtral
Mesurau lliniaru effeithiau negyddol neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg:	

² Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2009-2012

³ Byw yng Ngwynedd: Tai - Tueddiadau mewn prisiau tai ag fforddiadwyiaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru a Cheredigion (Mawrth 2009)

3. Cyfanswm Dyfarniad a Sgôr cronnus

Dyfarniad	Sgôr (cyfanswm o 10)	Disgrifiad o'r mesuryddion
Cadarnhaol:	+2.5	- Teuluoedd tenantiaid sy'n siarad Cymraeg (c1.) (pwysiad uchel) - Tenantiaid yn cymhathu/integreiddio'n ieithyddol i'r gymuned (c2.) (pwysiad uchel) - Cyfrannu at gynladwyedd cyfleusterau lleol (c9.) (pwysiad canolig)
Niwtral:	7.5	- Dyfodiad stoc tai gwag ar sefyllfa ieithyddol pentrefi eraill yr ardal (c3.)* (pwysiad uchel) - Dylanwadu ar raddfa allfudo ymhlith pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg (c4.) (pwysiad uchel) - Dylanwadu ar raddfa mewnfudo pobl di-Gymraeg i'r ardal (c5.)* (pwysiad uchel) - Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned leol (c6.) (pwysiad uchel) - Defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lleol (c7.) (pwysiad uchel) - Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd pentrefi eraill yr ardal (c8.)* (pwysiad uchel) - Arwain at gynnydd mewn achosion o dorcyfraith (c10.) (pwysiad canolig) - Creu swyddi lleol ychwanegol a chyfrannu at gynnal neu hybu'r economi leol (c11.) (pwysiad canolig) - Effaith ar bris cyfartalog tai yn yr ardal leol (c12.) (pwysiad canolig)
Negyddol:	-0.0	• -
Cadarnhaol	+2.5	Dyfarniad a Sgôr Cronnus Asesiad Ardrawiad Ieithyddol Congl Meinciau

* yn ddarostyngedig i gynnal asesiadau terfynol

Gan fabwysiadu band +/-10% cafwyd dyfarniad sgôr o +2.5 Cadarnhaol i ddatblygiad Congl Meinciau. Er mwyn profi'r dull (a'r canlyniad) sgorio mae Tabl 3 isod yn ystyried sgôr atebion yn erbyn band +/-5%, band +/-10% ac heb fand o gwbl.

Tabl 3: Dyfarniadau Sgôr yn erbyn 3 dull sgorio

Cwestiwn	Pwysiad gwerth	Band +/-5%		Band +/-10%		Dim band	
		Heb gwestiynau *	Pob cwestiwn	Heb gwestiynau *	Pob cwestiwn	Heb gwestiynau *	Pob cwestiwn
1	Uchel (1)	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol
2*	Uchel (1)	Amherthnasol	+1.0 Cadarnhaol	Amherthnasol	+1.0 Cadarnhaol	Amherthnasol	+1.0 Cadarnhaol
3**	Uchel (1)	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim
4*	Uchel (1)	Amherthnasol	0 Niwtral	Amherthnasol	0 Niwtral	Amherthnasol	0 Niwtral
5*	Uchel (1)	Amherthnasol	0 Niwtral - interim	Amherthnasol	0 Niwtral - interim	Amherthnasol	0 Niwtral - interim
6	Uchel (1)	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	0 Niwtral	0 Niwtral	+1.0 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol
7	Uchel (1)	-1.0 Negyddol (ymylol)	-1.0 Negyddol (ymylol)	0 Niwtral	0 Niwtral	-1.0 Negyddol (ymylol)	-1.0 Negyddol (ymylol)
8**	Uchel (1)	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim	0 Niwtral - interim
9*	Canolig (0.5)	Amherthnasol	+0.5 Cadarnhaol	Amherthnasol	+0.5 Cadarnhaol	Amherthnasol	+0.5 Cadarnhaol
10*	Canolig (0.5)	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral
11*	Canolig (0.5)	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral
12*	Canolig (0.5)	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral	Amherthnasol	0.5 Niwtral
-	-	+1.0 Cadarnhaol	+2.5 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+2.5 Cadarnhaol	+1.0 Cadarnhaol	+2.5 Cadarnhaol

* Yn amherthnasol i'r 3 dull sgorio – gan na ddefnyddir cymarebau bandio A a B.

** Gall amrywio ar ôl cyflawni Cam A 4.

Ymhob sefyllfa o ran y 3 dull sgorio dengys y canlyniad yn Gadarnhaol (ar gyfartaledd +1.0 Cadarnhaol ar sail cwestiynau 1, 3 a 6-8 yn unig a +2.5 Cadarnhaol yn erbyn pob cwestiwn). Dengys felly fod y dull yn effeithiol a phwrpasol yn yr achos hwn. O bryd i'w gilydd lle nad fydd dyfarniad sgôr yn eglur, bydd angen i Gymdeithasau Tai ddefnyddio'r dull sgorio amrywiol hwn er mwyn canfod effaith mwyaf tebygol ar y Gymraeg.

4. Mesurau i integreiddio cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda chyfleoedd a swyddogaethau adfywio cymunedol ehangach.

Cyffredinol

Gweledigaeth Gwynedd ar y Cyd: “Erbyn 2021, ein gweledigaeth yw y bydd Gwynedd wedi croesawu sialensiau a chyfleoedd byd newidiol er mwyn dod yn gymuned fwy bywiog, ffyniannus, agored a chydlynol sydd yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo ei asedau diwylliannol a naturiol unigryw gan wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fyd mwy cynaliadwy”. Cynlluniau Gwynedd ar gyfer rhaglenni amrywiol megis Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Iwerddon Cymru (Interreg 4a) a nifer o raglenni strategol eraill sy'n ceisio adfywio cymunedau. Nod o geisio “Cynnal ac adeiladu ar gymeriad unigryw Gwynedd, manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil y diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod adfywio yn llawer mwy na datblygu economaidd ar lefel leol, a'i fod yn cynnwys ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn ogystal â'r ffactorau economaidd.”

Diffiniad Gwynedd o adfywio yw: ‘Ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg’.-

Mesur 1: Cynlluniau Ardal Adfywio Pwllheli a Llŷn

Bydd y Cynlluniau Ardal yn fodd i danlinellu tueddiadau lleol unigryw gan gynnwys cyfleoedd a bygythiadau lleol. Byddant yn nodi'r heriau mwyaf perthnasol i'r ardal dan sylw, gan arwain at adnabod blaenoriaethau daearyddol lleol. Caiff pob Cynllun Ardal ei lunio ar y cyd gyda thrigolion, sefydliadau a chymunedau'r ardal honno. Disgwylir y bydd y Cynlluniau Ardal yn sicrhau bod y blaenoriaethau thema a nodir yn y Strategaeth Adfywio yn cael eu teilwra i gwrdd ag amgylchiadau'r ardaloedd unigol. O'r herwydd bydd pob Cynllun Ardal yn wahanol a gyda'i gymeriad lleol ei hun.

Mae gogwydd daearyddol i Gynllun Ardal ond hefyd sefydlir 'Cymuned o ddiddordeb' – onid oes angen sefydlu gweithgor i gynrychioli cymuned ar gyfer y Gymraeg? Gallai un aelod o Gynllun pob Ardal gymryd cyfrifoldeb portffolio dros y Gymraeg a sicrhau fod y dimensiwn ieithyddol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y Cynllun Ardal lleol. Diau y dylai Cynllun Ardal Pwllheli a Llŷn roi pwyslais uwch ar y Gymraeg a phrif-lifo'r iaith i holl gynlluniau adfywio'r ardal.

Bydd y dangosydd isod yn cael ei ddefnyddio i fonitro amgylchiadau'r sir yn ystod oes y Strategaeth.

- Nifer y cymunedau, adrannau etholiadol, yng Ngwynedd sydd â 70% neu fwy o siaradwyr Gymraeg.

Mesur 2: Swyddogion Adfywio

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cyflogi Swyddogion Adfywio Bro. Onid oes angen darparu hyfforddiant dimensiwn ieithyddol pwrpasol iddynt i'w galluogi i osod cynllunio ieithyddol yn briodol a rhesymol i gynlluniau adfywio lleol.



Gellir gosod agenda glir i'r swyddogion hyn i asesu sgôp y gefnogaeth i'r Gymraeg yn y gweithle. Yng nghalon Llŷn felly mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem fawr ond yn Ne a Gogledd Ddwyrain Gwynedd mae'n sefyllfa wahanol. Gallai swyddog gyda mandad glir i gefnogi a datblygu cyflogaeth lleol cysylltiedig i ddatblygiadau tai (a chynladwyedd y Gymraeg o fewn hynny) fod yn lwyfan pwysig i sicrhau llwyddiant y safle busnes/datblygiad ond yn allweddol yr un amser, cefnogi'r Gymraeg trwy ddangos manteision marchnata posibl defnyddio'r Gymraeg yn ogystal ac o bosibl sicrhau nawdd cysylltiedig i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle yn ysbryd cynllun gweithleoedd dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mesur 3: Cysylltu prosiectau gyda meysydd diddordeb cysylltiol.

Mae rhaglen Interreg yr Undeb Ewropeaidd yn darparu cyfleoedd pwysig i gysylltu cyflogaeth gyda phartneriaid yn lwerddon ayyb ac wrth gwrs gallent fod a chyswllt cryf i'r ieithoedd traws ranbarthol a'u pwysigrwydd yn nhermau cefnogi cynnyrch a gwasanaethau – gan amlinellu'n effeithiol yr elfen unigryw o'r iaith fel rhan bwysig o greu partneriaethau i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth. Er enghraifft mae Partneriaeth Twristiaeth Gwynedd wedi cyflwyno cais diweddar am nawdd Interreg i gefnogi datblygu Busnes Digidol trwy Rwydwaith (DNB) sy'n canoli rôl y Gymraeg/ Gwyddeleg a threftadaeth i gefnogi cynnyrch twristiaeth yn y ddau ranbarth. Ffocws y gwaith hwn yw i ymchwilio i'r dull o ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd all greu buddion cyflogaeth yn yr lwerddon a Chymru a byddai'r llwyfan DNB yn fodd i gynorthwyo'r gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, dylai datblygiadau megis Cynllun Tai, Gwaith, iaith ymchwilio i sgôp datblygu y mathau hyn o weithgareddau fel cyfrwng gweithredol i integreiddio iaith fel rhan o'r datblygiad busnes sylfaenol.

Mesur 4: Cynnyrch a Gwasanaethau Cymreig

Gyda chysylltiad mor gryf (ond cuddiedig) i gynladwyedd y Gymraeg yna yn amlwg nid yw cysylltu hyn i 'bopeth' Cymraeg ond yn gam bychain pellach. Felly byddai'n ymddangos yn amserol i ffocysu cefnogaeth busnes tuag at ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau gwirioneddol Gymreig (yn ogystal a'r iaith Gymraeg wrth gwrs). Mae'r fath ymdrechion wedi bod yn llwyddiannus mewn lleoliadau megis Glynllifon ayyb ac mi all ffurfio rhan o bortffolio Swyddog Adfywio Bro.

Mesur 5: Canolfan Hanes a Diwylliant yr Iaith Gymraeg

Mae wedi ein taro ers amser y byddai Pen Llŷn yn leoliad delfrydol ar gyfer Canolfan Hanes a Diwylliant yr Iaith Gymraeg. Gallai fod yn ganolfan i ymwelwyr allai hefyd gynig cyflwyniadau am hanes a hynt a helynt y Gymraeg yn ogystal a gweithredu fel rhwydwaith cyswllt cyntaf ar gyfer blasu profiadau Cymreig lleol yn ysbryd Cynllun Naws am Le Croeso Cymru a chynllun Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cysylltu dysgwyr gyda busnesau a sefydliadau sy'n arddel y Gymraeg (e.e. Bwtri, Pwllheli). Er enghraifft, nosweithiau cerddoriaeth Cymraeg (tafariadai Penlan, Whitehall, Y Fic), Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Canolfan iaith Nant Gwrtheyrn, teithiau cerdded Cymdeithas Edward Llwyd a Chlwb Mynyddda Cymru.

Mae'r dynesiad hwn yn cynnig datrysiadau hydrin ond yn eu hanfod ail orau i'r broblem o weithredu cynllun tai fforddiadwy (a menter Canolfan Fusnes cysylltiedig) heb unrhyw gyfarwyddyd penodol o ran yr iaith Gymraeg.

Mesur 6: Dymunai Cyngor Cymuned Tudweiliog weld bod gallu siarad Cymraeg yn cael ei ystyried wrth asesu ceisiadau darpar denantiaid ar gyfer tai mewn datblygiad tai lleol.



5. Diwedd glo

Mae'r asesiad ardrawiad ieithyddol yn rhoi dyfarniad a sgôr +2.5 cadarnhaol allan o gyfanswm sgôr 10 ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy Congl Meinciau gyda 7.5 mesurydd Niwtral a dim mesurydd Negyddol. Mae'r dyfarniad – sydd â 2 fesurydd Niwtral yn ddarostyngedig i gynnal gwaith maes pellach i fesur effeithiau ieithyddol y datblygiad ar gymuned Botwnnog a phentrefi (ac ysgolion) eraill Llŷn ac Eifonydd - yn rhoi neges clir am effaith cadarnhaol y datblygiad ar y Gymraeg.

Ers 2001 mae canran siaradwyr Cymraeg Gwynedd wedi dirywio 3.1% sy'n golygu mai gan amlaf effeithiau niwtral gaiff datblygiadau tai lleol ar y Gymraeg am y rheswm syml mai dadleoli a symud siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned mae datblygiadau tai lleol – hynny yw, nid oes modd denu mwy o siaradwyr Cymraeg oherwydd amod byw neu weithio'n lleol, ac felly mae'r darpar denantiaid yn hanu o bwl penodol digyfnwidd. Er hynny, mae cynnal asesiad ardrawiad iaith yn parhau'n allweddol bwysig er mwyn sefydlu os bydd rhai datblygiadau yn cynyddu ac ymestyn y dirwyd ieithyddol oherwydd gwneuthuriad ieithyddol y tenantiaid. Tra bo'r sgôp i geisio lliniaru neu oresgyn effeithiau negyddol yn gyfyng ar y gorau, cyfraniad allweddol asesiad ardrawiad iaith yw amlygu os oes amryfusedd rhwng anghenion lleol ac anghenion ieithyddol, a thros gyfnod o amser sefydlu os yw hyn yn batrwm achlysurol neu mwy sefydledig. Yn y darlun ehangach cynyddir dealltwriaeth am y berthynas hon, yn arbennig o gofio bydd Cyfrifiad 2011 yn ddiddorol iawn o ran gweld faint o gymunedau 70% + o siaradwyr Cymraeg fydd yn goroesi yng Nghymru ac yn Ngwynedd. Diau os bydd gostyngiad pellach o 58 yn genedlaethol a 42 yng Ngwynedd y bydd rôl a swyddogaeth Asesiad Ardrawiad Ieithyddol tai fforddiadwy yn fwy arwyddocaol fyth.